Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Os oes gennych chi fwy nag un eiddo amlfeddiannaeth (HMO), bydd angen ichi lenwi ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob eiddo. Llenwch y ffurflen yn ofalus gan ddefnyddio'r canllawiau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Mae'r rhestr wirio ganlynol yn rhoi manylion am y dogfennau sydd angen eu darparu gyda'r ffurflen gais hon.

- Y ffi briodol (gweler isod am fanylion)
- Un llun maint pasbort (35mm x 45mm yn unig)
- Cofnod Diogelwch Nwy i Landlordiaid a/neu
- Ffurflen CD/12 OFTEC – Gwiriad Diogelwch Olew i Landlordiaid
- Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol BS7671: Rhan P
- Ar gyfer y Deiliad Trwydded Arfaethedig
- 1 copi clir o brawf adnabod + 1 copi clir o brawf cyfeiriad

Rhaid darparu'r dogfennau canlynol os ydynt ar gael ac yn berthnasol:-

- Adroddiad Gosod/Archwilio a gwasanaethu larymau tân
- Tystysgrif archwilio Goleuadau Argyfwng a chynnal profion cyfnodol
- Asesiad Risg Diogelwch Tân
- Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)
- Tystysgrif Cwblhau dan y Rheoliadau Adeiladu
- Caniatâd Cynllunio (ar gyfer addasu neu newid defnydd i HMO)
- Prawf PAT ar gyfer offer trydanol cludadwy
- Copi clir o'r cytundeb Tenantiaeth

Mae'n ofynnol cael cynllun o'r eiddo ar gyfer bob llawr o'r adeilad, yn dangos lleoliad, maint a manylion gosodiadau trydanol yr holl ystafelloedd. Dylai'r cynlluniau hefyd ddangos lleoliad yr holl offer diogelwch tân.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

FFIOEDD

Bydd y rhestr ganlynol o ffioedd a gostyngiadau'n berthnasol ar gyfer bob cais o 1af Ebrill 2023, a bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

Ffi trwyddedu HMO orfodol fesul ystafell drigiadwy ar gyfer 1 i 14 o ystafelloedd yn gynwysedig(*)	
Trwydded Newydd	£285.00
Adnewyddu Trwydded (yn amodol ar fodloni'r meini prawf)	£239.00
Ffi trwyddedu HMO orfodol fesul ystafell drigiadwy ar gyfer y 15fed i'r 25ain o ystafelloedd yn gynwysedig(*)	
Trwydded Newydd	£51.00
Adnewyddu Trwydded (yn amodol ar fodloni'r meini prawf)	£42.00
Ffi trwyddedu HMO orfodol fesul ystafell drigiadwy ar gyfer y 26ain ystafell i fyny (*)	
Trwydded Newydd	£24.00
Adnewyddu Trwydded (yn amodol ar fodloni'r meini prawf)	£18.00
Ffi trwyddedu HMO ychwanegol fesul ystafell drigiadwy (i'r rhai nad oes ffi orfodol ar eu cyfer)	
Trwydded Newydd	£285.00
Adnewyddu Trwydded (yn amodol ar fodloni'r meini prawf)	£239.00
Taliadau gwasanaeth ychwanegol	
Tâl gweinyddol am addasu manylion trwydded HMO. (Tâl unigol ar gyfer gweddill cyfnod y drwydded)	Hyd at £280.00
Ail-argraffu trwydded HMO	£37.00
Copi o'r gofrestr HMO	£49.00
Ad-daliad troi'n gartref teuluol eto	
Ad-daliad rhannol – pan fydd yr HMO yn cael ei droi'n gartref teuluol eto neu'n cael ei werthu o fewn cyfnod 5 mlynedd y drwydded, a phan gynhaliwyd llai na dau ymweliad.	Hyd at £239.00

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

#At ddibenion ffi Trwydded HMO, ystafell drigiadwy yw ystafell wely neu ystafell fyw. Ni fydd ceginau/ystafelloedd bwyta neu geginau/ystafelloedd byw cyfun yn cael eu cyfrif fel ystafelloedd trigiadwy oni bai bod angen yr ardal fyw neu'r ardal fwyta sydd ynddyn nhw i gwrdd â'r gofynion lleiaf o ran lle (a nodir yn Safonau Llety CSC). Yn yr un modd, ni chodir ffi am ddarparu ystafell fwyta ychwanegol, pan fydd ystafell fyw ar wahân ar gael hefyd. Sylwer y bydd y drwydded yn cynnwys cyfyngiadau ar y nifer o ddeiliaid, a fydd yn atal yr ystafell rhag cael ei throi'n ystafell wely dan y

*Bydd gostyngiad o 50% ar gyfer Eiddo Amlfeddiannaeth mwy o faint sy'n darparu llety i gwrdd ag anghenion y Brifysgol (ond nad yw'n berchen neu'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Brifysgol) cyn belled â'i fod wedi'i gofrestru ac yn cydymffurfio'n llawn â chod ymarfer ANUK ar gyfer llety myfyrwyr.

Meini prawf ar gyfer y gyfradd adnewyddu ostyngol;

- Derbynnir y cais cyn i'r drwydded bresennol ddod i ben ac
- Mae'r Cais i Adnewyddu Trwydded yn gyflawn, gan gynnwys yr holl dystysgrifau, dogfennau a thâl priodol ac
- Mae deiliad y drwydded, yn ystod cyfnod y drwydded flaenorol, wedi cydymffurfio â holl amodau'r drwydded (gan gynnwys cyflwyno'r Dystysgrif Diogelwch Nwy flynyddol os yn berthnasol) ac
- Mae deiliad y drwydded a/neu'r rheolwr enwebedig wedi'u cofrestru a'u trwyddedu'n briodol gyda Rhentu Doeth Cymru, ac
- Nid yw deiliad y drwydded/yr unigolyn sy'n rheoli wedi derbyn Hysbysiad Rhan 1 Deddf Tai 2004 o fewn y cyfnod trwyddedu blaenorol.

O 01/04/2018, bydd ffioedd cais am drwydded HMO (newydd ac adnewyddu) yn cael eu rhannu'n ddwy ran, sef symiau cyn dosbarthu ac ar ôl dosbarthu. Bydd y swm llawn yn daladwy wrth wneud cais, a rhoddir ad-daliad os bydd y cais yn cael ei ystyried a'i wrthod. Rhennir y symiau hyn fel a ganlyn:

Ceisiadau am drwydded newydd: 80% cyn dosbarthu; 20% ar ôl dosbarthu

Ceisiadau i adnewyddu trwydded: 90% cyn dosbarthu; 10% ar ôl dosbarthu